**CYNGOR BRO LLANGELER-27:07:2015**

Cofnodion Cyfarfod Nos Lun Gorffennaf 27ain 2015 yn Neuadd y Ddraig Goch, Felindre, Llandysul am 7.30y.h.

1. **07/15 PRESENNOL:** Cynghorwyr: Yn y Gadair Delyth Evans(yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Is Gadeirydd), John Crossley, Ian Davies, Nesta Jones, Mary Phillips, Dilwyn Smith, Marc Rees. John Wigley. Clerc – Stella Jones
   **HEFYD YN BRESENNOL:** Cyng. K Howell, Cyfieithydd ac aelod o'r cyhoedd

   Cydymdeimlwyd a'r Cynghorydd Brenda Jones ar farwolaeth ei gŵr.

2. **07/15 HEDDLU:** Ymddiheiriad

3. **07/15 YMDDIHEURIADAU:** Cyng. B Jones, C Roberts, A Thomas,

4. **07/15 COFNODION:**derbyniwyd cofnodion Cyfarfod Misol Mehefin 29ain 2015 a'u cael yn gywir
   Cynigydd – Cyng. J Wigley,
   Eilydd – Cyng N Jones,

5. **07/15 DATGANIADAU DIDDORDEB :-** Materion yn Codi – Cyng. J Crossley, D Smith.

6. **07/15 MATERION YN CODI :**
   12.i.01/14. b) 'Audio Trail' – Cyng. C Roberts methu bod yn y cyfarfod
   6.i. Pwyllgor y Parc – Clerc wedi siarad a'r cyfreithiwr dwedodd gall Pwyllgor y Parc ddewis ymddiriedolwyr newydd, gan bod y rhai gwreiddiol i gyd wedi marw a nododd petai pwyllgor y parc yn dadfyddino byddai'r cyfan yn mynd nôl i'r Cyngor
   11.05/15 – cadwyn y Cadeirydd – daeth Cyng. J Wigley a'r gadwyn newydd i'r cyfarfod – pawb wedi plesio a'r eitem gorffenedig
   6.xvi.06/15 – Novus Energy – Blaen Bowi taliadau cymunedol – Clerc wedi siarad a'r cyfreithiwr ynghylch hyn – dwedodd nad oedd yn arbenigo yn y maes hwn ac yn awgrymu bod y Cyngor yn gofyn am farn arbenigwyr fel Agri Adviser
   10.i.06/15 - i. Coeden ar safle sgwâr Pentrecwrt – roedd Sefydliad y Merched yn derbyn y safle a awgrymwyd gan y Cyngor ac yn deall nad oedd y Cyngor am coeden a fyddai'n colli ei dail ac yn tyfu'n rhy dal gan y byddai hyn yn achosi cost glanhau ychwanegol i'r Cyngor.
   10.ii.06/15 – Clawr twll-archwilio Parc Puw – Cyngor Sir Gâr wedi trwsio hwn. Dwedodd y Clerc bod y Cyngor Sir wedi cymryd y darn tir drosodd ers 1978 ar gost o £1.
   9.b.06/15 – Cais am Gefnogaeth Ariannol – Roedd y Clerc wedi gwneud ymholiadau i ULlC i gael gweld os oedd hawl rhoi nawdd i unigolion – dwedwyd nad oedd hawl gwneud hyn.

7. **07/15 GOHEBIAETH:**
   i. CSG – Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned – Medi 1af 2015 (Cyng J Crossley i gynrychioli'r Cyngor)
   ii. e-bost – Cynhadledd Un Llais Cymru Dydd Sadwrn 3ydd Hydref 2015 – c*ylchlythyrwyd a nodwyd*
   iii. e-bost – Bwletin Rhanbarthol Simon Thomas AC – *cylchlythyrwyd*
   iv. e-bost – ULlC – Casglu a Rheoli Trethi Datganoledig – *cylchlythyrwyd a nodwyd*
   v. e-bost – Dangosfwrdd TB mewn gwartheg - Sioe Frenhinol Cymru – *cylchlythyrwyd a nodwyd*
   vi. e-bost – ULlC – Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) – *cylchlythyrwyd a nodwyd*
   vii. e-bost – Sut mae'r newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar eich mudiad chi? – *cylchlythyrwyd a nodwyd*
   viii. e-bost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 22.06.2015 - 26.06.2015 – *cylchlythyrwyd a nodwyd*
   ix. e-bost – "Countryside / Environment company introduction" – *cylchlythyrwyd a nodwyd*
   x. e-bost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 29.06.2015 - 03.07.2015 – *cylchlythyrwyd a nodwyd*
   xi. e-bost – Rheoliadau Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu (Cymru) 2015 – *anfonwyd ymlaen i gynrychiolwyr y parc*
   xii.e-bost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 06.07.2015 - 10.07.2015 – *cylchlythyrwyd a nodwyd*
   xiii. e-bost – Bwletin Rhanbarthol – Simon Thomas AC – *cylchlythyrwyd*
   xiv. e-bost– CSG – Ceisiadau Cynllunio 12.07.2015 - 17.07.2015 – *cylchlythyrwyd a nodwyd*
   xv. e-bost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 20.07.2015 - 24.07.2015 – *cylchlythyrwyd a nodwyd*
   xvi. e-bost – St Barnabas Loteri Treftadaeth.Cais yn gofyn am lythyr– *cytunwyd i hyn*

8. **07/15 CYNLLUNIO**
   **Cais Ymgynghori llawn**
   W/32248 – Mr John Francis, Plot cyfagos i Tŷ Iorwerth, Felindre – cais amlinellol am un tŷ a garej – *dim barn*
   W/32249 – Mr Simon Brassington, Blaenpant, Cwmduad – estyniad domestig – *dim sylw*
   W/32250 – Sioned Timothy, Penlan Gerrig, Penboyr – estyniad dau lawr i'r bwthyn presennol – *dim barn*
   W/32251 – Mr Marc Lewis, Llyseinon, Rhos SA445EE – estyniad i'r annedd – *dim barn*

___________________________________ Cadeirydd ________________________ Dyddiad

W/32330 – Einon Homes - Marc Lewis – materion ar gadw(mynediad, golwg, tirlunio, dyluniad, graddfa) i ganiatad cynllun amlinellol W/27940[caniatawyd i blot preswyl ynghyd a gweithdy fframwaith pren, defnydd masnachol a defnydd amaethyddol ar gyfer menter tai gwledig] – *dim sylwadau*

W/32331 – Mr & Mrs G Fisher, 2 Pant Glas, Cwmhiraeth – cynnig i osod system gwresogi cyfoes olew ac i ddarparu gofod gwresogi dŵr twym ar gyfer tŷ a adwaenir fel y Deri, 2 Pantglas. Mae'r cais yma yn cynnwys ailosod y teils llawr gwreiddiol, newidiadau i'r ystafell ymolchi, creu ystafell wely, tynnu allan lle tân modern a simdde, ailosodiad o ddrws y ffrynt, ac mân drwsio – *dim sylwadau*

W/32347 – Mr & Mrs G Davies, Bwlchclawdd, Rhos – materion ar gadw i amlinelliad W/26993(RHEOLIADAU 2,3,9,14 AC 15) – *dim sylwadau*

**9. 07/15 MATERION ARIANNOL**

**a.** Anfonebau

i. TRYWYDD – cyfieithu yng nghyfarfod 27/07/2015 ..........£49.80

ii .HIRIO NEUADD Y DDRAIG GOCH – cyfarfod 27/07/15 ..........£7.00

[ caniatâd i dalu'r ddau uchod fel daw'r taleb fewn ]

iii. YSWIRIANT PARC SARON ..........£990.00

iv. AUTODROMO DESIGN & MODELMAKING ..........£116.40

Arian yn y Banc ar 09/07/2015..........£12,139.24

**b**. **Credyd**

Ad-daliad TAW ..........£4,285.87

**c. Cais am Gefnogaeth Ariannol**

Cefnogaeth Cancr Macmillan 2015 - £100

**10. 07/15 ADRODDIAD PWYLLGOR**

Dim

**11. 07/15 MATERION ANGEN TRAFODAETH**

Dim

**12. 07/15 SYLWADAU'R CYNGHORWYR:**

i. Cyng J Crossley – coed ar yr hewlydd – Pentrecwrt i Henllan, trwy rhan uchaf Penboyr – *cysylltu a'r Cyngor Sir*

ii. Cyng J Wigley – i. Ieuenctid ar byrddau sgêt yn Waungilwen yn beryglus – *Clerc i roi gwybod i'r heddlu*
ii.sbwriel yn dal i gael ei adael ar ben yr hewl am Pantybarcud

iii. Cyng K Howell – y cais am Lwybrau Diogel yn Saron a Phentrecwrt wedi mynd mewn i'r Cyngor Sir ac yn aros am y canlyniad.

.

**CYFARFOD NESAF**

Cynhelir y Cyfarfod Misol nesaf Nos Lun, Medi 28fed 2015, am 7.30y.h yn Neuadd yr Eglwys, Penboyr, Felindre, Llandysul

Daeth y cyfarfod i ben am 8.10 y.h

________________________ Cadeirydd ________________________ Dyddiad